# CANLLAWIAU I GRWPIAU CYMUNEDOL A GWIRFODDOL
# Gwahodd, derbyn ac agor dyfynbrisiau

## Cynlluniau sydd a'u gwerth yn is nag £1000

Mae un pris yn dderbyniol.

## Cynlluniau sydd a'u gwerth rhwng £1000 a £5,000

Nid oes angen dyfynbrisiau cystadleuol ar gyfer contractau gyda gwerth amcangyfrifedig o lai na £5,000. Dylid cael dyfynbris ar bapur gan y Cyflenwr. Bydd yn cynnwys manylion y gwasanaethau, cyflenwadau neu waith i'w darparu ac yn gosod pris a thelerau taliadau.

## Cynlluniau sydd a'u gwerth dros £5,000

**1. Cyn i'r gwaith gychwyn**

- Paratoi amcangyfrif o bris y gwaith i sicrhau dyfynbris rhesymol. (Awgrym: Cydweithio gyda arbennigwr yn y maes i sicrhau fod y broses cyfalaf â'r rhaglenni gwaith yn gywir a chyflawn.
- Os yw'r grwp yn cyflogi rheolwr i'r cynllun bydd rhaid dangos tri pris neu gyfiawnhad digonnol dros y dewis.
- Dethol cwmniau sydd yn dechnegol addas ar gyfer cyflawni'r gwaith.

**2. Gwahodd dyfynbrisiau**

- Anfon manylion llawn a chyson i'r holl gontractwyr (o leiaf 3) ar yr un dyddiad.
- Dogfennau ynghlwm â'r gwahoddiadau:
  - Briff o'r gwaith
  - Cais am ddyfynbris
  - Dyddiad ac amser cau
  - Amlen (dewisol) - rhaid i amlenni dyfynbrisiau nodi eu bod yn cynnwys dyfynbris.
  - Tystysgrif atal twylledd (dogfen ar gael gan Ywch Swyddog Cist Gwynedd

**3. Newid i'r dyfynbrisiau**

Os oes unrhyw newid yn y broses neu'r cynllun RHAID i'r holl gontractwyr gael eu hysbysu yn ysgrifennedig.

**4. Derbyn dyfynbrisiau**

I'w derbyn yn yr amlenni penodol erbyn y dyddiad a'r amser penodedig.

**5. Agor dyfynbrisiau**

- Agor cyn gynted ag y bo modd wedi'r dyddiad ac amser cau.
- O leiaf dau aelod o'r grwp i'w hagor a chofnodi enwau, dyddiad ac amser agor ar y dyfynbrisiau.
- Sicrhau fod y dyfynbrisiau yn gywir yn unol a'r briff a roddwyd. Ni ddylid gwneud newidiadau na ychwanegiadau anawdurdodiedig i'r dogfennau.
- Cadw'r amlenni fel prawf hygrededd yn y broses tendro.

Gellir ffurfioli proses agor dyfynbrisiau gyda ffurflen derbyn tendrau. Ffurflen ar gael gan Uwch Swyddog Cist Gwynedd

## 6. Dyfynbrisiau Hwyr

Dim i dderbyn y dyfynbrisiau hwyr.

## 7. Cofnodi dyfynbrisiau

Cofnodi a chadw tystiolaeth o’r drefn wahodd, newidiadau, derbyn ac agor y dyfynbrisiau ac unrhyw ddogfeniaeth eraill i gefnogi y penderfyniad.

**Er mwyn sicrhau tecwch a dilysrwydd y broses, mae angen sicrau fod pob contractwr yn derbyn yr un wybodaeth a thelerau.**